

**Julie James AC/AM**  
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip  
Leader of the House and Chief Whip



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniw AC  
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Mehefin 2018

Annwyl Mick

Ymddangosais gerbron eich pwyllgor ar 11 Mehefin i roi tystiolaeth ynglŷn â materion gweithredol mewn perthynas â'r pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth. Rwy'n deall eich bod chi'n paratoi eich adroddiad i'w gyhoeddi ac roeddwn am roi pwynt o esboniad ichi.

Gofynnwyd imi am y pwerau sydd gan Weinidogion y Deyrnas Unedig (DU) i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Hoffwn fod yn gwbl glir, yn yr amgylchiadau eithriadol sy'n codi yn sgil penderfyniad y DU i ymadael â'r UE, mae Llywodraeth Cymru yn barod i ganiatáu i Weinidogion y DU wneud rheoliadau cywiro technegol annadleuol mewn meysydd datganoledig o dan y Bil, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru.

Fel yr amlinellodd y Prif Weinidog i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 15 Mai, mae capasiti Llywodraeth y DU a Senedd y DU yn llawer mwy na'n capasiti ninnau. Oni bai bod rheswm gwleidyddol, neu reswm sy'n ymwneud â pholisi, pam y dylid gwneud cywiriadau ar wahân i Gymru yn unig, gall llawer o'r cywiriadau technegol i ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr neu'r DU gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU gyda'n cydysyniad ninnau.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**  
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip  
Leader of the House and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.